**Cyngor Partneriaeth Cymru – 17 Mawrth 2025 –**
**Diweddariad Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol**

DRAFT

## Pwrpas

- I nodi cynnydd a'r camau nesaf ar gyfer y Panel Strategaeth Hinsawdd (PSH), gyda chefnogaeth Rhaglen Cefnogi Newid Hinsawdd (RCNH) CLlLC[1]

- Cynnydd yn erbyn 'trywydd y sector cyhoeddus i sero net'[2]

- Cynnydd yn erbyn ymrwymiadau yng nghynllun lleihau carbon 'Sero Net Cymru' ar gyfer Cyllideb Garbon 2, 2021-25 (gweler Atodiad 1) - mewn meysydd trafnidiaeth, adeiladau, defnydd tir a chaffael.

- Edrych ymlaen o ran y cymorth y bydd ei angen ar gynghorau yn ystod Cyllideb Garbon 3 (2026-30).

## Pwyntiau allweddol i'w hystyried

- Mae pob un o'r pum grŵp wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr ymrwymiadau a gefnogir gan Raglen Cefnogi Newid Hinsawdd CLlLC (RCNH), sy'n ysgogi mwy o ymgysylltu gan gynghorau.
- Rhoddwyd mwy o sylw i gynnwys cynghorau mewn hyfforddiant rhyngweithiol yn y meysydd hyn i uwchsgilio a chodi ymwybyddiaeth ar draws adrannau.
- Er bod cefnogaeth bwrpasol i awdurdodau lleol bellach ar gael drwy'r RCNH i symud ymlaen yn erbyn ymrwymiadau, mae'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun yn araf a bydd CLlLC yn gweithio gyda chynghorau dros y misoedd nesaf i drafod a dynnu sylw at y gefnogaeth y gellir ei darparu.

- **Nid yw cynnydd tuag at ymrwymiadau sero net yn unffurf ac mae angen annog manteisio ar y cymorth sydd ar gael a rhannu arfer da.**

- **Mae angen i berchnogaeth gyrru'r agenda sero net fod yn gorfforaethol ac wedi'i wreiddio ar draws yr holl wasanaethau, nid cyfrifoldeb un swyddog.**

## Argymhellion

- **Bod y Cyngor Partneriaeth yn nodi'r cynnydd a'r pwyntiau allweddol.**

- **Bod aelodau'r Cyngor yn hyrwyddo'r gwaith hwn o fewn eu sefydliadau ac ar draws rhwydweithiau, gan gyflymu'r cynnydd a'r nifer sy'n manteisio.**

---

[1] Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn darparu cymorth i alluogi CLlLC i ddarparu Rhaglen Cefnogi Newid Hinsawdd ers 2021, gyda dyraniad blynyddol o rhwng £300,000 a £360,000.

[2] Statws carbon sero net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws sector cyhoeddus Cymru. Mae'r trywydd yn pennu tri cham, sy'n nodi lle y dylai cyrff cyhoeddus anelu tuag ato ar bob cam: 'cyflymu' (2021-2022); 'cryn bellter ar hyd y daith' (2022-2026); a 'cyrraedd ein nod' (2026-2030).

## Y Panel Strategaeth Hinsawdd (PSH)

2. Cynhaliwyd cyfarfod gan y PSH, sy'n dod â chadeiryddion y grwpiau tasg a gorffen ac uwch swyddogion LlC ynghyd, ar 19 Chwefror 2025. Rhannwyd y wybodaeth ddiweddaraf â'r grŵp ynghylch setliad cyllideb LlC, Rhaglen Ariannu Cymru a'r Rhaglen Cefnogi Newid Hinsawdd. Cyflwynodd cynrychiolwyr y grwpiau tasg a gorffen Defnydd Tir a Chaffael bapurau, a chytunodd y grŵp ar argymhellion, a oedd yn cynnwys:

    - Defnydd tir: Cryfhau cyswllt y grŵp o ran darparu atebion seiliedig ar natur sy'n gwella bioamrywiaeth a dal a storio fel agweddau allweddol ar reoli tir, o ystyried yr argyfwng natur.

    - Caffael: Awdurdodau Lleol i orchymyn y defnydd o'r templed Cynllun Lleihau Carbon safonol y cyfeirir ato yn WPPN06/21 ar gyfer pob contract dros £6 miliwn ac argymell ei ddefnyddio ar gyfer contractau o werth is. Bydd angen cefnogi hyn gyda hyfforddiant a chyfathrebu.

## Cynnydd PSH a grwpiau:

3. Mae pob grŵp yn adrodd i'r PSH ar gynnydd yn erbyn eu hymrwymiadau Sero Net Cymru. Mae crynodeb o'r cynnydd wedi'i gynnwys isod.

## Cynnydd yn erbyn ymrwymiadau

### (a) Caffael

4. Dyma'r cynnydd i'w adrodd ynghylch caffael:

    - Cynnwys gweithwyr proffesiynol ym maes caffael a gofal cymdeithasol mewn dwy ddogfen ganllaw ddrafft ar leihau allyriadau ym maes caffael gofal cymdeithasol a defnyddio cynlluniau lleihau carbon wrth gaffael, a gynhyrchwyd gan Miller Research, gyda'r nod o gwblhau a dosbarthu'r canllawiau.

    - Dechrau gweithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru gyda'r prosiect adrodd allyriadau cadwyn gyflenwi haen 2 a 3.

    - Trafod cysondeb â gwasanaethau lleihau carbon Busnes Cymru.

- Mewn perthynas â'r trywydd, mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, ond mae angen rhannu arferion da sy'n dod i'r amlwg ymhlith yr anghenion 'cryn bellter ar y daith' cyn bod modd i Gynghorau honni eu bod yn 'cyrraedd ein nod'.

DRAFT

## (a) Trafnidiaeth

5. Mae’r cynnydd i’w adrodd ar drafnidiaeth fel a ganlyn:

    - Ym mis Tachwedd 2024, gofynnodd y cadeirydd am bapur dysgu a rennir i gasglu profiadau cynghorau hyd yma wrth drosglwyddo i gerbydau trydan gyda’r isadeiledd gwefru oedd ei angen ac i nodi cyfleoedd a heriau i hwyluso trosglwyddo pellach. Trafodwyd y papur drafft ym mis Ionawr 2025 ac mae wedi’i ddosbarthu i Reolwyr Fflyd ledled Cymru i gael mewnbwn pellach ar draws y themâu trosglwyddo. Caiff y papur wedi'i ddiweddaru ei drafod yng nghyfarfod y grŵp tasg a gorffen ym mis Mawrth.

    - Cyd-fynd â datblygiadau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Gwasanaeth Ynni a’r Gwasanaethau Caffael Masnachol ar gam nesaf yr ymarfer caffael cerbydau trydan cydweithredol.

6. Mae'r datblygiadau uchod yn dangos cynnydd da yn erbyn yr ymrwymiadau net sero yng Nghymru. Maent hefyd wedi cynnig cymorth i gynghorau i’w helpu i symud ymlaen o ran y trywydd, ond mae’r cynnydd bellach yn dibynnu i raddau ar faint ohonynt fydd yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael ac yn mabwysiadu’r hyn a ddysgir ledled Cymru. Fodd bynnag, nodir bod amrywiaeth o weithgareddau cysylltiedig yn digwydd ar draws y sector cyhoeddus, ac er bod enghreifftiau cadarnhaol o gydweithio i’w cael, mae’n parhau’n her i’r sector cyhoeddus fod yn fwy cydlynol.

## (c) Adeiladau

7. Mae’r cynnydd i’w adrodd ar adeiladau fel a ganlyn:

    - Bydd y cynllunwyr sefyllfaoedd sero net sy’n cael eu datblygu ar gyfer pob awdurdod lleol (a gomisiynir gan CLlLC) yn darparu costau cyfalaf drwy weithio tuag at lywio penderfyniadau strategol yn ymwneud â dewisiadau datgarboneiddio. Cyn i'r cynllunwyr gael eu cwblhau a'u cyhoeddi, mae Partneriaethau Lleol ac AECOM yn cymharu setiau data ar adeiladau ysgol fel bod data a chostau â sicrwydd ansawdd a naratif cydlynol yn cael eu cyflwyno i gynghorau, i’w cefnogi gyda gwneud penderfyniadau gwybodus. Comisiynwyd AECOM gan Lywodraeth Cymru i gynnal arolwg cyflwr ar ddatgarboneiddio’r ystâd addysg.

    - Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cymorth gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y Grant Gwres Carbon Isel.

8. Nid oes cymaint o gynnydd â’r disgwyl wedi’i wneud o ran yr ymrwymiadau sero net yng Nghymru i lunio cynllun strategol. Fodd bynnag, o'u defnyddio gyda'i gilydd, bydd gwaith Partneriaethau Lleol, Miller Research (adroddwyd yn

flaenorol), a mewnbwn gan Ystadau Cymru yn caniatáu datblygu strategaeth o'r fath.

9. Mae'r Grant Gwres Carbon Isel wedi caniatáu i sawl cyngor newid eu hadeiladau allweddol i ddefnyddio dulliau carbon isel o ynni, a chafodd gwersi gwerthfawr eu dysgu yn ystod y broses. Fodd bynnag, mae graddfa'r gwaith sydd angen ei wneud yn enfawr o gymharu â'r cyllid sydd ar gael. Mae'n amlwg y bydd angen blaenoriaethu gwaith a'i gysylltu â chynlluniau rhesymoli ystadau. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran gwres carbon isel drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gyfer ysgolion newydd/ ysgolion a adnewyddwyd. Yn gyffredinol, er bod rhai meysydd 'gryn bellter ar eu taith' mae dal llawer mwy o waith a buddsoddi i'w wneud os ydym ni am 'gyrraedd ein nod' yn unol â'r trywydd.

**(d) Defnydd tir**

10. Mae'r cynnydd i'w adrodd ar y defnydd o dir fel a ganlyn:

- Ar hyn o bryd, darperir hyfforddiant pwrpasol drwy gyfres o seminarau hyfforddi Rheolaeth Carbon Tir ar Ymagwedd Awdurdod Cyfan mewn perthynas â Charbon Tir, Rheoli Cynefinoedd Carbon a Charbon Tir, Adfywio ac Isadeiledd, a gyflwynir gan Netherwood Sustainable Futures.
- Darparu dau arddangosiad Hyfforddiant Derbyn Defnyddwyr ar y Teclyn Mapio Digidol Defnydd Tir gyda Costain a MapDataCymru. Roedd y sesiynau rhyngweithiol hyn yn hyrwyddo nodweddion presennol y teclyn ac yn casglu adborth ar gyfer ail gam ei ddatblygiadau technegol ddiwedd y gwanwyn.
- Cynnal seminar wyneb yn wyneb ar Reolaeth Carbon Tir Strategol gyda Chyngor Sir Gâr.
- Yn y broses o nodi meysydd cefnogi/ffocws newydd i gymell yr ymrwymiad defnydd tir.

11. Mae'r grŵp wedi mynd i'r afael â'r holl ymrwymiadau sero net yng Nghymru ac wedi gwneud cynnydd da mewn perthynas â hwy ac mae gwaith yn mynd rhagddo i godi ymwybyddiaeth am ddal a storio carbon ar y tir ac annog pobl i weithredu ar hynny. Mae CNC (a gynrychiolir ar y grŵp) yn ymgymryd â gwaith i adfer mawndiroedd a hyfforddiant cysylltiedig. Er bod angen i Gynghorau gyflwyno hyn cyn y gellir honni ein bod 'gryn bellter ar ein taith', mae'r sylfeini wedi'u gosod erbyn hyn.

12. Er ein bod yn gweld y lefel hon o gynnydd, mae'n amlwg bod llawer o waith i'w wneud o hyd o ran defnydd tir. Teimlir ei bod hi'n bryd adolygu'r blaenoriaethau ar gyfer y grŵp, yn ogystal â sut yr ydym ni'n sicrhau'r effaith fwyaf. Yna, byddai hyn yn bwydo i Raglen Cefnogi Newid Hinsawdd CLlLC ac yn cael ei gefnogi gan gam nesaf y rhaglen, a ddatblygir ar hyn o bryd. Byddai'r allbwn o'r sesiynau hyfforddi uchod hefyd yn llywio'r cynllun gwaith.

**(e) Addasiad**

13. Dyma'r cynnydd i'w adrodd o ran addasiad:

- Cefnogi Llywodraeth Cymru gyda'r gwaith o lunio'r Strategaeth Addasiadau Genedlaethol.

- Cyflwyno sesiwn Wythnos Hinsawdd Cymru 2024 i feithrin dealltwriaeth o addasiadau hinsawdd mewn partneriaeth â Netherwood Sustainable Futures, Cyngor Sir Powys a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg.[3]

- Cyflwyno Sesiwn Sbotolau Hinsawdd ar addasiadau hinsawdd gyda Llywodraeth Cymru, a fynychwyd gan amrywiaeth o swyddogion llywodraeth leol, aelodau etholedig a swyddogion Llywodraeth Cymru.

- Datblygu rhaglen waith newydd ac ymrwymiadau llywodraeth leol er mwyn cymell y rhaglen addasiadau ar draws cynghorau a chefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Addasiadau Genedlaethol.

### (f) Gwaith trawsbynciol a chymorth pwrpasol i awdurdodau lleol

14. Dyma'r cynnydd i'w adrodd ynghylch gwaith ehangach:

- Cefnogi adolygiad sero net 2030 gan Gyngor Sir Ynys Môn, a ddarparwyd gan Netherwood Sustainable Futures. Roedd yr adolygiad yn cynnwys dadansoddiad o ddogfennau corfforaethol presennol a thrafodaeth 1:1 gydag ystod o uwch reolwyr, ac roedd yn gwneud argymhellion ar gyfer cyflawni yn ystod 2025-2030. Y gobaith yw y bydd modd rhannu'r hyn a gafodd ei ddysgu o waith Ynys Môn gyda chynghorau eraill, gan fod perthnasedd ehangach gan lawer o'r canfyddiadau.

- Symleiddio gwaith cynharach Uchelgais Gogledd Cymru ar leihau allyriadau a chefnogi bioamrywiaeth drwy brosiectau Cynllyn Twf Gogledd Cymru yn fethodoleg achos busnes ar gyfer pob awdurdod lleol. Darparwyd hyfforddiant, sy'n cynnwys sesiwn gyflwyno a sesiynau manylach i gyfranogwyr a chymeradwywyr achosion busnes, yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2024 ar y cyd ag Arup a Grant Thornton. Mae Cynghorau Sir Ddinbych a Sir Gâr bellach yn treialu'r fethodoleg yn erbyn prosiectau penodol. Disgwylir i'r fethodoleg gael ei chwblhau a'i chyflwyno yn y Gwanwyn. Yn y cyfamser, mae cyfres o gyfarfodydd yn cael eu cynnal neu wedi'u trefnu er mwyn hyrwyddo'r fethodoleg a'r dull gydag amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a Chanolfan Ragoriaeth Grantiau LlC.

- Gwaith cefnogi pwrpasol presennol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (llunio argymhellion defnydd tir yn seiliedig ar asesiadau ecolegol o safleoedd pori i lywio strategaeth rheoli asedau).

[3] Wythnos Hinsawdd Cymru 2024 | Wales Climate Week 2024 - YouTube

Adroddiad Sero Net Sector Cyhoeddus Cymru 2023/24 – y wybodaeth ddiweddaraf am allyriadau[4]

- ***Sylwch*** *yn y penawdau isod, gan fod adroddiadau sero net ar hyn o bryd yn seiliedig ar wariant (haen 1), mae allyriadau carbon cadwyn gyflenwi (cwmpas 3) yn cynyddu wrth i wariant caffael gynyddu. Bu newidiadau hefyd o ran arferion mesur. Felly, mae'n bwysig symud ymlaen at adroddiadau Haen 2 a 3 er mwyn cael data mwy cywir.* [5]

- Ers 2023, mae allyriadau cwmpas 1 a 2 awdurdodau lleol wedi gostwng 4%, wrth i allyriadau cwmpas 3 gynyddu 14%. Ers y cyfnod adrodd y llynedd, mae allyriadau adeiladau wedi gostwng 4% ac mae allyriadau fflyd wedi gostwng 3%.

- Dros y flwyddyn ddiwethaf o ran cwmpas 3, mae allyriadau cadwyn gyflenwi wedi cynyddu 19% (gwelwyd cynnydd o 7% yng ngwariant cadwyn gyflenwi), ac mae allyriadau cludiant wedi cynyddu 5%. Ers 2023, mae allyriadau gwastraff wedi gostwng 65% ac ers 2020, mae allyriadau dŵr wedi gostwng 66%.

- Awdurdodau lleol sy'n cyfrannu'r gyfran fwyaf o allyriadau i Sector Cyhoeddus Cymru (43%) gyda'r trydydd ôl troed uchaf ar gyfartaledd (yn dilyn GIG Cymru yn ail, a Llywodraeth Cymru yn gyntaf). Bydd dadansoddiad pellach o allyriadau ar gael yn yr adroddiad a gyhoeddir gan LlC a dangosfwrdd newydd a ddisgwylir ym mis Mawrth 2025.

## Gweithio tuag at uchelgais sero net 2030 y sector cyhoeddus a Chyllideb Garbon 3

15. Ym mhob un o'r meysydd gwaith hyn felly, mae cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn ymrwymiadau Cymru Sero Net y cynghorau a'r trywydd. Bydd gwneud cynnydd pellach yn parhau i fod yn heriol o ystyried y cyfyngiadau cyllidebol sy'n wynebu pob cyngor. Fodd bynnag, gallai rhai o'r mesurau arbed arian a/neu gynhyrchu incwm dros eu cyfnod, yn ogystal â chyfleoedd drwy waith caffael ar y cyd, hyfforddiant a datblygu sgiliau, ac mae'r rhain yn negeseuon allweddol i awdurdodau lleol drwy'r rhaglen hon.

[4] Ffynhonnell: Tîm Adrodd Sero Net LlC, Cyflwyniad i ganfyddiadau ôl troed carbon 2023/24, Rhagfyr 2024.

[5] Mae **Cwmpas 1** yn cynnwys allyriadau uniongyrchol o ffynonellau sy'n eiddo neu sy'n cael eu rheoli, gan gynnwys hylosgi tanwydd a cherbydau cwmni. Mae **Cwmpas 2** yn cynnwys allyriadau anuniongyrchol o brynu a defnyddio trydan, stêm, gwresogi ac oeri. Mae **Cwmpas 3** yn cynnwys yr holl allyriadau anuniongyrchol eraill sy'n deillio o weithgareddau i fyny'r afon ac i lawr yr afon sefydliadau, gan gynnwys nwyddau a gwasanaethau sydd wedi'u prynu, teithio busnes, teithio i'r gwaith a gwaredu gwastraff. Beth yw allyriadau Cwmpas 3 a pham eu bod nhw'n bwysig? | The Carbon Trust

**ATODIAD 1 – ymrwymiadau Llywodraeth Leol**

Mae'r ymrwymiadau y mae llywodraeth leol wedi'u gwneud ac sydd wedi'u cynnwys yn Sero Net Cymru i'w gweld yn y tabl isod.

## Net Zero Wales LG Commitments

| |
|---|
| **Buildings**<br>- Develop and deliver a strategic plan for decarbonising local authority estate.<br><br>Ystadau Cymru as strategic lead;<br>- Strategic plan for decarbonising buildings by end of 2023.<br>- All public buildings supplied with low carbon heat by 2030.<br>- All new public sector buildings are built to net zero standard. |
| **Procurement**<br>- Develop understanding of emissions profile of all procured goods and services by end of 2022.<br>- Carbon reduction specifications in all new or reviewed contracts.<br>- Focus on a number of priority contracts and share learning re. decarb across LAs by end 2022 – to develop a decarb approach to be applied to all contracts by 2023. |
| **Mobility & Transport**<br>- Build on fleet reviews and develop plans for transforming fleet, inc. EV charging infrastructure, all new cars and light goods vehicles ULEV by 2025, reduce carbon footprint of buses, taxis and private hire vehicles to zero by 2030.<br>- Grey fleet review to be completed by end of 2022 (working with WGES)<br>- Support remote working where possible, at home or in hubs. Encourage active travel and public transport. |
| **Land Use**<br>- Map out local authority land holdings by April 2022 to identify types of land and their potential for carbon sequestration, renewable energy and flood management.<br>- Carbon sequestration seen as a core purpose for public land by leaders.<br>- Develop 5 year training and apprenticeship programme and peatland restoration to support the supply chain. |

## Addasiad

Mae'r grŵp tasg a gorffen Addasiad, a gynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2024, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024, drwy ganolbwyntio ar bedwar maes:

1. Partneriaeth a Chydweithio
2. Gwytnwch Gwasanaeth
3. Gwytnwch Cymunedol
4. Arweinyddiaeth